# Pecyn Recriwtio

# Llyw a Byw



# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb yn y rôl hon. Am fwy nag ugain mlynedd, mae Area 43 wedi darparu cymorth galw-heibio a chwnsela i nifer o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn ein cymuned. Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r byd wedi newid. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd pobl ifanc yn profi problemau iechyd meddwl cynyddol, hunanladdiad, ynysu, a system gymorth nad oedd yn diwallu eu hanghenion. Ym 1996, sefydlwyd Area 43 i fynd i'r afael â'r materion hyn a thros y blynyddoedd, rydym wedi llwyddo i helpu llawer o bobl ifanc leol i lywio'r heriau y maent yn eu hwynebu'n llwyddiannus.

Mae un o bob wyth o bobl ifanc yn dioddef o broblem iechyd meddwl. Mae 30% yn byw mewn tlodi, mwy na thraean wedi hunan-niweidio. Mae pobl ifanc yn profi diffyg cyfleoedd cyflogaeth, materion yn ymwneud â delwedd y corff a materoliaeth, pwysau o'r cyfryngau cymdeithasol a stereoteipio negyddol, a'r hen broblemau o dlodi, cam-drin domestig a materion teuluol eraill, camddefnyddio sylweddau, a throseddu. Ychwanegwch at hynny flwyddyn allan o'r ysgol, wedi'i hynysu oddi wrth ffrindiau, teulu a systemau cymorth, ac mae'r argyfwng ar ei ben ei hun. A rhaid i ni wneud rhywbeth yn ei gylch.

Mae angen i ni fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion sy'n ymwneud ag arwahanrwydd, hunan-barch, a gwytnwch i fynd i'r afael â'r materion iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae angen i ni wneud hyn gyda phobl ifanc, yn hytrach na chreu gwasanaethau a gosod pobl ifanc ynddyn nhw. Mae angen i ni fod yn hyblyg, yn cael ei harwain gan anghenion, yn wybodus am drawma, ac yn ddibynadwy. Mae angen i bobl ifanc wybod y gallant ddod atom, nid yn unig pan fyddant mewn argyfwng, ond cyn hynny, y cânt eu clywed, y gwrandewir arnyn nhw, a chânt eu cefnogi i wneud newidiadau.

Mae angen i wasanaethau apelio at bob person ifanc, bod yn agored, yn gynhwysol ac yn ymgysylltiol. Mae profiadau anfygythiol, hwyliog a gwerth chweil yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ac yn mynd i gyrchu gwasanaethau. Felly, pe baent byth mewn argyfwng, maent yn gwybod ble i droi am gymorth.

Croesawn bobl waeth beth fo'u hoedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, hil, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir economaidd-gymdeithasol, a ph'un a ydych yn feichiog neu ar absenoldeb teuluol. Yn unol â'n hymrwymiadau i degwch hiliol a chynhwysiant traws, rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl sydd â'r hunaniaethau hyn.

Rydym wedi ymrwymo i newid gwasanaethau, gan eu gwneud yn berthnasol i ieuenctid heddiw, ac arweiniodd hynny at Bartneriaeth Dyfodol Ni, yn gweithio ar brosiect Mind Our Future gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae Dyfodol Ni yn brosiect a arweinir gan bobl ifanc, a gwneir pob penderfyniad gan ein bwrdd rheoli pobl ifanc, $S^3$. Yn ystod Cyfnod Datblygu'r prosiect, rhoddodd $S^3$ gyfarwyddyd i Dîm Ymgysylltu Dyfodol Ni i ymgynghori â phobl ifanc ynghylch pa wasanaethau yr hoffent i gefnogi eu hiechyd meddwl. Canlyniad yr ymgynghoriadau hyn yw Llyw a Byw, ac $S^3$ fel corff lobïo dros hawliau pobl ifanc yn y sir.

Mae Llyw a Byw yn brosiect newydd ac arloesol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth amrywiol o bobl ifanc yng Ngheredigion. Mae'n gaffi ieuenctid symudol a gwasanaeth cymorth, a fydd yn darparu man teithiol diogel i bobl ifanc ledled Ceredigion. Bydd yn teithio o amgylch y sir, yn cefnogi pobl ifanc mewn ardaloedd mwy anghysbell, nad ydynt efallai wedi gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth o'r blaen.

Os yw hyn yn cyd-fynd â'ch persbectif, gobeithiaf y byddwch yn gwneud cais am y swydd hon.

Yn gywir,

**Rachael Eagles – Prif Swyddog Gweithredol, Area 43**

# Pwy ydym ni: Area 43

Elusen ysbrydoledig yw Area 43, wedi'i lleoli yn Aberteifi, gorllewin Cymru, sy'n darparu gwybodaeth, cymorth a hyfforddiant i bobl ifanc 14-25 oed a gwasanaethau cwnsela i'r rhai 5-30 oed. Wedi'i sefydlu ym 1996 fel prosiect sy'n cael ei arwain gan anghenion cymunedol, rydym wedi bod yng nghanol y Trydydd Sector yng Ngorllewin Cymru ers dros 20 mlynedd. Yn 2019 daeth Area 43 yn Sefydliad Corfforedig Elusennol o dan Ddeddf Elusennau 2006 ac mae'n cael ei lywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

Darparwn amgylchedd diogel, hwyliog, llawn gwybodaeth ac ysbrydoledig i bobl ifanc gael mynediad at gymorth; rydym yn rhoi'r grym i bobl ifanc i fynegi eu hunain drwy ymgysylltu â'r materion sy'n effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol. Gwnawn hyn trwy ymarfer addysgiadol, cyfranogol, gan eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at eu cymunedau trwy fod yn gynhwysol ac anfeirniadol yn ein hymagwedd.

Mae ffocws cryf ar atal trwy hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gan atgyfnerthu patrymau ymddygiad cadarnhaol trwy gwnsela, ymwybyddiaeth ofalgar a, lle bo'n briodol, cymorth gan gyfoedion.

Prosiect a ariennir gan y loteri yw Dyfodol Ni i wella gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl pobl ifanc yng Ngheredigion. Mae'n brosiect 6 blynedd, sydd newydd orffen ei Gyfnod Datblygu, lle cynhaliwyd ymchwil helaeth i ddarganfod beth mae pobl ifanc Ceredigion ei eisiau gan wasanaeth newydd ac arloesol i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Mae Dyfodol Ni yn cael ei arwain gan bobl ifanc, a gwneir pob penderfyniad sy'n ymwneud â'r prosiect gan $S^3$ (Safle Saff i Siarad), y bwrdd ieuenctid. Drwy ymgynghori â 1200 o bobl ifanc yn ystod y Cyfnod Datblygu, daeth yn amlwg mai'r prif faterion a oedd yn effeithio ar bobl ifanc yng Ngheredigion oedd mynediad i fannau diogel, mynediad at wasanaethau, a thrafnidiaeth. Datblygodd $S^3$ Llyw a Byw, caffi ieuenctid symudol, gofod diogel, a gwasanaeth cymorth, fel ffordd o leddfu'r materion hyn. Bydd y prosiect nawr yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac yn datblygu $S^3$ yn gorff cynrychioliadol ar gyfer pobl ifanc yng Ngheredigion, dros bum mlynedd nesaf y Cyfnod Cyflenwi.

# Ein Gwerthoedd

Rydym am ddefnyddio pŵer o:

**Gydlyniad Cymdeithasol.** I gynnig profiadau a rennir a lle i gwrdd â'r rhai o gefndiroedd gwahanol, gan hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a meithrin cyfeillgarwch.

**Cymunedau gwydn.** Rydym am gynorthywo pobl ifanc i ddatblygu gwerthoedd, hunangred a chred mewn eraill i ddod yn ddinasyddion hyderus, gweithredol. Rydyn ni am gynnig lle i berthyn, sgiliau i lwyddo a dod yn optimistaidd am y dyfodol

**Cyfranogiad dinesig.** Rydym am roi cyfleoedd i bobl ifanc wella eu bywydau a bywydau'r rhai o'u hamgylch, gan gymryd camau cymdeithasol pendant yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Gwell symudedd cymdeithasol.** Rydyn ni'n helpu i ddatblygu sgiliau bywyd, y cymeriad, y sgiliau ymarferol a chyflogadwyedd y bydd pobl ifanc yn eu cludo gyda nhw pan fyddan nhw'n oedolion, gan eu helpu i lwyddo.

I adeiladu

**Sgiliau Bywyd Unigol**

**Cysylltiadau rhwng pobl**

**Gwell Rhwydweithiau Cymorth**

**Mwy o gyfleoedd bywyd**

Golyga hyn bod pobl ifanc hapusach ac iachach yn cyflawni eu potensial yn dod yn well ffrindiau, teulu a chymdogion a gwell gweithwyr, cydweithwyr a dinasyddion.








# Pwy ydym ni: S³



Ni yw Safe Space to Speak / Safle Saff i Siarad, S³. Ni yw bwrdd llywodraethu Dyfodol Ni, a ni fydd y prif benderfynwyr ynglŷn â Llyw a Byw. Rydym yn grŵp amrywiol o bobl ifanc o bob rhan o Geredigion, a ni yw'r corff sy'n cynrychioli pobl ifanc ar draws y sir. Prif nod ein hymgyrch yw sefydlu rhwydwaith o fannau diogel i bobl ifanc, i ddiogelu llesiant a gwella iechyd meddwl.

Dyma yw ein gwerthoedd:

- O'r dechrau'n deg, cawn ein harwain gan bobl ifanc, a byddwn yn ysbrydoli ac yn rhoi'r grym i bobl ifanc.
- Rydym yn gymuned gynhwysol sy'n parchu unigoliaeth.
- Uniondeb yw ein gair allweddol: rydym yn dryloyw, yn foesegol ac yn onest yn ein gweithredoedd.
- Gweithredwn gyda charedigrwydd a pharch, gan greu lle diogel ar gyfer ein haelodau, a meithrin ymddiriedaeth yn ein sefydliad trwy ymarfer empathi ac amynedd.
- Rydym yn cydweithio ac yn cyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc.
- Rydym yn arloesi'n ddewr dros bobl ifanc.
- Rydym yn bodoli i hybu gwydnwch yn ein cymuned o bobl ifanc, ac i fod yn wydn ar eu rhan, gan eiriol dros eu hawliau.
- Rydym yn annog creadigrwydd a meddwl, a'n nod yw ysbrydoli a rhoi'r grym i bobl ifanc.
- Rydym yn ddilys ein hunain yn ein holl weithredoedd.
- Gwnawn trwbwl da, gan lefaru gwirionedd i rym.

# Ein nodau

Dyma nodau ein hymgyrch:

1. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'r holl wasanaethau presennol ar gyfer pobl ifanc yng Ngheredigion, ac yn ymgynghori â nhw ar ffyrdd o wella.
2. Byddwn yn grymuso ac yn mwyhau llais ieuenctid. Rydym yn cael ein harwain gan bobl ifanc, a byddwn yn sicrhau bod lleisiau a barn pobl ifanc yn cael eu clywed a'u cymryd o ddifrif.
3. Byddwn yn mynnu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:
    - Byddwn yn sefydlu system raddio ar gyfer gwasanaethau, fel y gall pobl ifanc fod yn ymwybodol o ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael.
    - Byddwn yn defnyddio'r system raddio hon i ddal gwasanaethau presennol yn atebol am eu ffyrdd presennol o weithio.
    - Byddwn yn annog gwasanaethau presennol i ddatblygu gydag amgylchiadau sy'n newid.
    - Byddwn yn sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda gwasanaethau presennol, gan fabwysiadu dull cydweithredol o wneud gwelliannau, a gofyn bob amser, "Sut gallwn ni helpu?".
    - Mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau – eirioli, esbonio pam ei fod yn bwysig, gwneud cais am gyllid.
4. Byddwn yn lobïo am newid systemig, yn seiliedig ar ymgynghori â phobl ifanc a'u barn ar y materion y dylem ymgyrchu drostynt. Yn 2023, mae'r rhain fel a ganlyn:
    - Mannau diogel sefydlog: Mae pobl ifanc am fannau diogel yn eu trefi a'u pentrefi, a byddwn yn ymgyrchu'n ddiflino i sicrhau mynediad i fannau diogel mewn cymaint o ardaloedd â phosibl o fewn Ceredigion. Diffinnir mannau diogel isod.
    - Mynediad i wasanaethau: Byddwn yn defnyddio ein gwaith ym mhwynt 3 o'n maniffesto i sicrhau gwasanaethau o ansawdd da i bobl ifanc, a'n nod yw gwella'r cyfeirio ac felly mynediad at y gwasanaethau hyn.
    - Trafnidiaeth: Nid yw trafnidiaeth o fewn Ceredigion yn ddigon da. Mae pobl ifanc yn ei ystyried yn anaml, yn annibynadwy, neu'n hollol ddim ar gael. Mae hyn yn effeithio ar fynediad i bob un o'r uchod.
5. Byddwn yn diogelu gwasanaethau da sydd eisoes yn bodoli, trwy roi ein cefnogaeth i geisiadau am arian, ymgynghori ar brosiectau newydd neu wella, a hyrwyddo eu gwasanaethau i bobl ifanc.
6. Byddwn yn sicrhau hirhoedledd y lobi S³ drwy ymgysylltu ag arferion recriwtio effeithiol, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.
7. Byddwn yn eiriol dros werth gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, sy'n aml yn cael eu hanwybyddu.
    - Rydym yn gorff cynrychioliadol ar gyfer safbwyntiau pobl ifanc.
    - Byddwn yn dylanwadu ar strategaeth a pholisi yn y dyfodol ynghylch llesiant a budd pobl ifanc.

8. Byddwn yn llefaru gwirionedd i bŵer.
    - Byddwn yn wydn ac yn ddiymddiheuriadol yn ein galw am well gwasanaethau i bobl ifanc.
    - Byddwn yn bendant y dylai pobl mewn safleoedd o rym gadw barn pobl ifanc ar flaen y gad mewn unrhyw ddatblygiadau a anelir at y ddemograffeg hon.
    - Byddwn yn mynnu bod y rhai sydd mewn grym yn "camu i fyny neu'n camu'n ôl" – ein helpu i wneud newidiadau systemig er llesiant pobl ifanc, neu 'gamu'n ôl'.
9. Byddwn yn ymgyrchu dros newid systemig er budd pobl ifanc.
10. Byddwn yn creu mannau diogel i bobl ifanc.
    - Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau sy'n ceisio creu mannau diogel effeithiol, ac yn galw ar y rhai sy'n honni eu bod, ond nad ydynt yn gwneud hynny yn ymarferol.

# Mannau Diogel

Ein diffiniad o fan diogel, a sut yr hoffem i Llyw a Byw weithredu, yw y dylai man diogel fod:

- Rhad ac am ddim yn y pwynt mynediad.
- Lle i bobl ifanc, gan bobl ifanc, wedi'i osod o fewn fframwaith o weithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw.
- Lle sy'n cyfathrebu â phobl ifanc ac yn cyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael.
- Lle sy'n hyrwyddo hawliau a llesiant pobl ifanc.
- Lle ble gall person ifanc fod yn agored i niwed heb gael ei farnu.
- Lle ble nad oes stigma.
- Lle cwbl gynhwysol.
- Lle ble gallwch chi fod eich hun heb un ymddiheuriad.
- Lle ble mae diodydd cynnes a bwyd, sy'n gysur.
- Lle sy'n annog unigoliaeth.
- Lle a all gynnig tegwch, sefydlogrwydd, cysondeb a dibynadwyedd.
- Gofod sy'n annog yr ymdeimlad o gymuned, ac sy'n helpu i adeiladu rhwydweithiau cymorth.
- Lle sy'n rhoi cyfle i'r gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth ymyrryd yn gynnar mewn, ac atal, argyfyngau iechyd meddwl.

# Disgrifiad Swydd
# Uwch Weithiwr Cefnogi

**Teitl y Swydd:** Uwch Weithiwr Cefnogi
**Contract:** Amser Llawn (37 awr)
**Cyflog:** £26,780 y flwyddyn pro rata
**Lleoliad:** Wedi'i leoli yng Ngorllewin Cymru, yn gweithio ledled Ceredigion.
**Buddion:** Cyfraniadau pensiwn: 3% cyflogwr; 3% gweithiwr
20 diwrnod p.a. a gwyliau banc statudol pro rata

**Pwrpas cyffredinol y rôl:**

Mae Dyfodol Ni yn chwilio am staff cymorth ar gyfer ei gaffi ieuenctid symudol a'i wasanaeth cymorth, Llyw a Byw. Bydd y gwasanaeth yn darparu man diogel i bobl ifanc ar draws y sir mewn modd anffurfiol llawn hwyl. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr ar gyfer Uwch Weithiwr Cymorth Ieuenctid, i fod yn seiliedig ar y gwasanaeth symudol, i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc a chyflwyno gweithgareddau. Bydd y rôl yn cynnwys patrwm sifftiau rhwng 11 a 7 dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

Yn adrodd i'r Rheolwr Prosiect, mae'r rôl Uwch Weithiwr Cymorth Ieuenctid hwn yn rhan o'r tîm Galw Heibio ac yn cynnwys croesawu pobl ifanc i'r gwasanaeth symudol/caffi ieuenctid, yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth a chefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth lleol.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect i reoli tri Gweithiwr Cefnogi rhan amser arall, gyrru'r fan gwasanaeth symudol, a rheoli elfen caffi awyr agored y gwasanaeth. Bydd y Gweithwyr Cefnogi hefyd yn ymgynghori â phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth i sicrhau bod y prosiect yn cael ei fonitro'n barhaus.

Cefnogir y rôl gan y tîm yn Area 43, sy'n darparu cyfuniad o waith ieuenctid, gwasanaethau cwnsela a phrosiectau cymunedol er mwyn hyrwyddo datblygiad personol, addysgol, creadigol a chymdeithasol pobl ifanc, gan eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

**Nod Llyw a Byw yw darparu amgylchedd cefnogol ble gall pobl ifanc:**

- gyrchu cymorth a gwybodaeth
- darganfod syniadau a gweithgareddau newydd cyffrous nad ydynt yn debygol o'u profi yn unrhyw le arall

- arbrofi, gwneud camgymeriadau a ffynnu
- yn cael y cyfle i wella eu llesiant fesul cymorth cwnsela
- trin eu hunain ac eraill gyda charedigrwydd a pharch
- yn llawn cymhelliant, yn gadarnhaol ac yn wydn
- ennill sgiliau i feithrin annibyniaeth

**Cyfrifoldebau:**

- Sicrhau bod pob rhaglen yn bodloni gofynion cyllidwyr trwy brosesau monitro a gwerthuso cadarn, gan gynnwys ymgynghori gweithredol a rheolaidd â phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Rheoli'r caffi ieuenctid, darparu goruchwyliaeth weithredol reolaidd a mentora i staff eraill.
- Gyrru'r fan (Llyw a Byw) i leoliadau ar draws Ceredigion, gosod a phacio'r caffi gyda gweddill y staff Cefnogi.
- Cynllunio a chyflwyno digwyddiadau wythnosol ar ddydd Sadwrn, gan weithio gyda S3 (y bwrdd rheoli ieuenctid), y Rheolwr Prosiect, Partneriaid, a deiliad diddoredeb eraill.
- Cynhyrchu a diweddaru'r holl gyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â Llyw a Byw.
- Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau priodol, gan gynnwys cyfeirio, canslo, asesu, gweithdrefnau ariannol a gweinyddol.
- Sicrhau bod cwynion cleientiaid yn cael eu hymchwilio a'u trin yn briodol.
- Sefydlu a chynnal llwybrau atgyfeirio effeithiol a thrawsgyfeiriadau gyda thimau mewnol a deiliaid diddordeb allanol pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl a llesiant.
- Arwain ar sefydlu a hyfforddiant parhaus i wirfoddolwyr a staff eraill y prosiect mewn perthynas â phynciau llesiant, emosiynol ac iechyd meddwl.
- Ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion, colegau a'r gymuned ynghylch gweithgareddau Llyw a Byw.
- Darparu ystadegau a chynnal adroddiadau monitro a gwerthuso chwarterol ar gyfer y Rheolwr Prosiect.
- Sefydlu a chynnal systemau cadw cofnodion priodol yn unol â gofynion GDPR a diogelu data.
- Datblygu a dilyn cynllun gwerthuso trosfwaol ar gyfer y gwasanaeth.
- Sicrhau bod canlyniadau ac allbynnau gwasanaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol a pharatoi ystadegau gwasanaeth yn fisol.
- Gweithio'n agos gyda'r adran gyllid a sicrhau y cedwir at gyllidebau a bod systemau ariannol yn cael eu cynnal.
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael mynediad i gaffi galw heibio/ ieuenctid
- Creu a chynnal gweithgareddau ar y cyd â phobl ifanc.
- Rhoi’r grym i bobl ifanc i gynnig eu syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Ymgysylltu â phobl ifanc, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir.
- Hyrwyddo a rheoli amgylchedd diogel, cynhwysol ar gyfer darpariaeth galw heibio.
- Cynnal Allgymorth gyda Phobl Ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac yn ehangach yn y gymuned.

# Manyleb Person

**Profiad:**

- Profiad blaenorol mewn rôl gefnogol gyda chyfrifoldeb eang.
- Profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc.
- Gallu bod yn ofalgar, sensitif ac amyneddgar wrth gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl.
- Brwdfrydedd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.
- Y gallu i wrando, deall ac ymateb i bobl, gan roi'r person sy'n cael ei gefnogi yn gyntaf bob amser.
- Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phobl a gweithio mewn cytgord ag eraill, trwy herio a helpu pobl i ddatblygu a dysgu o'u profiadau.
- Y gallu i fod yn hyblyg ac yn agored i heriau, syniadau a phrofiadau newydd.
- Y gallu i ddangos gwerthoedd ac ymddygiad Area 43.

**Sgiliau:**

- Sgiliau rhyngbersonol cryf, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol ag ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Yn gyfarwydd ag ystod o feddalwedd a chymwysiadau a phrofiad o ddefnyddio'r rhain mewn cyfathrebiadau digidol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chronfeydd data.
- Gallu gweithio dan bwysau ar eich menter eich hun a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun
- Dyfeisgarwch, gwytnwch ac arloesedd i allu rheoli gwahanol flaenoriaethau a deall ystod eang o weithgareddau.
- Gallu gweithio gydag ystod o staff a deiliaid diddordeb a deall pwysigrwydd cyfrinachedd.
- Hyder wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol ac unigolion.
- Trwydded yrru lawn y DU.

**Gwybodaeth:**

- Gwybodaeth o'r sector Elusennol.
- Yn gymwys gyda meddalwedd megis MS Office.
- Mae Amddiffyn/Diogelu Plant Lefel 2 yn ddymunol, ond gellir darparu hyfforddiant.
- Y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.

# Disgrifiad Swydd
# Gweithiwr Cefnogi

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Cefnogi |
| **Contract:** | Rhan Amser (29.6)<br>Rhan Amser (22.2) |
| **Cyflog:** | £24,000 y flwyddyn pro rata |
| **Lleoliad:** | Wedi'i leoli yng Ngorllewin Cymru, yn gweithio ledled Ceredigion. |
| **Buddion:** | Cyfraniadau pensiwn: 3% cyflogwr; 3% gweithiwr<br><br>20 diwrnod p.a. a gwyliau banc statudol pro rata |

**Pwrpas cyffredinol y rôl:**

Mae Dyfodol Ni yn chwilio am staff cymorth ar gyfer ei gaffi ieuenctid symudol a'i wasanaeth cymorth, Llyw a Byw. Bydd y gwasanaeth yn darparu man diogel i bobl ifanc ar draws y sir mewn modd anffurfiol llawn hwyl. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr am dair swydd wag Gweithiwr Cefnogi, i fod yn seiliedig ar y gwasanaeth symudol, i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc a chyflwyno gweithgareddau. Bydd y rôl yn cynnwys patrwm sifftiau rhwng 11 a 7 dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

Yn adrodd i'r Uwch Weithiwr Cefnogi a'r Rheolwr Prosiect, mae rôl y Gweithiwr Cefnogi yn rhan o'r tîm Galw Heibio ac yn cynnwys croesawu pobl ifanc i'r gwasanaeth symudol / caffi ieuenctid, sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth a chefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth lleol.

Bydd y rôl yn cynnwys gyrru'r fan gwasanaeth symudol, a rheoli'r elfen caffi awyr agored o'r gwasanaeth. Bydd y Gweithwyr Cefnogi hefyd yn ymgynghori â phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth i sicrhau bod y prosiect yn cael ei fonitro'n barhaus.

Cefnogir y rôl gan y tîm yn Area 43, sy'n darparu cyfuniad o ddarpariaeth gwaith ieuenctid, gwasanaethau cwnsela a phrosiectau cymunedol er mwyn hyrwyddo datblygiad personol, addysgol, creadigol a chymdeithasol pobl ifanc, gan eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial.

**Nod Llyw a Byw yw darparu amgylchedd cefnogol ble gall pobl ifanc:**

- gyrchu cymorth a gwybodaeth
- darganfod syniadau a gweithgareddau newydd cyffrous nad ydynt yn debygol o'u profi yn unrhyw le arall
- arbrofi, gwneud camgymeriadau a ffynnu
- yn cael y cyfle i wella eu llesiant fesul cymorth cwnsela
- trin eu hunain ac eraill gyda charedigrwydd a pharch
- yn llawn cymhelliant, yn gadarnhaol ac yn wydn
- ennill sgiliau i feithrin annibyniaeth

**Cyfrifoldebau:**

- Cymryd rhan mewn ymgynghoriad gweithredol a rheolaidd gyda phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Rhedeg y caffi ieuenctid o ddydd i ddydd, gosod a phacio.
- Gyrru'r fan (Llyw a Byw) i leoliadau ar draws Ceredigion.
- Cefnogi'r Uwch Weithiwr Cefnogi i gynllunio a chyflwyno digwyddiadau wythnosol ar ddydd Sadwrn, a chyflwyno'r digwyddiadau hyn ar y cyd â sefydliadau partner.
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael mynediad i gaffi galw heibio/ ieuenctid
- Creu a chynnal gweithgareddau ar y cyd â phobl ifanc.
- Rhoi'r grym i bobl ifanc i gynnig eu syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Ymgysylltu â phobl ifanc, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir.
- Hyrwyddo a rheoli amgylchedd diogel, cynhwysol ar gyfer darpariaeth galw heibio.
- Cynnal Allgymorth gyda Phobl Ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac yn ehangach yn y gymuned.
- Cynhyrchu a diweddaru'r holl gyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â Llyw a Byw.
- Dilyn polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r rôl.
- Anfon cwynion cleientiaid ymlaen at yr Uwch Weithiwr Cefnogi, i sicrhau yr ymchwilir iddyn nhw ac yr ymdrinnir â hwy'n briodol.
- Sefydlu a chynnal llwybrau atgyfeirio effeithiol a thrawsgyfeiriadau gyda thimau mewnol a deiliaid diddordeb allanol pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl a llesiant.
- Ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion, colegau a'r gymuned ynghylch gweithgareddau Llyw a Byw.
- Cynnal systemau cadw cofnodion priodol yn unol â GDPR a gofynion diogelu data.
- Dilyn cynllun gwerthuso trosfwaol ar gyfer y gwasanaeth.

# Manyleb Person

**Profiad:**

- Profiad blaenorol mewn rôl gefnogol.
- Profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc.
- Gallu bod yn ofalgar, sensitif ac amyneddgar wrth gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl.
- Brwdfrydedd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl.
- Y gallu i wrando, deall ac ymateb i bobl, gan roi'r person sy'n cael ei gefnogi yn gyntaf ar bob adeg.
- Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phobl a gweithio mewn cytgord ag eraill, trwy herio a helpu pobl i ddatblygu a dysgu o'u profiadau.
- Y gallu i fod yn hyblyg ac yn agored i heriau, syniadau a phrofiadau newydd.
- Y gallu i ddangos gwerthoedd ac ymddygiad area 43.

**Sgiliau:**

- Sgiliau rhyngbersonol cryf, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol ag ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Yn gyfarwydd ag ystod o feddalwedd a chymwysiadau a phrofiad o ddefnyddio'r rhain mewn cyfathrebiadau digidol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chronfeydd data.
- Yn gallu gweithio dan bwysau ar eich menter eich hun a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.
- Dyfeisgarwch, gwytnwch ac arloesedd.
- Deall pwysigrwydd cyfrinachedd.
- Hyder wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol ac unigolion.
- Trwydded Yrru Llawn y DU.

**Gwybodaeth:**

- Gwybodaeth o’r Sector Elusennol.
- Yn gymwys gyda meddalwedd megis MS Office.
- Mae Amddiffyn/Diogelu Plant Lefel 2 yn ddymunol, ond gellir darparu hyfforddiant.
- Y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, ond nid yn hanfodol.

# Gofynion ar gyfer yr holl staff

Fel aelod o Area 43 a thîm Llyw a Byw, mae rhai disgwyliadau cyffredin gan bawb, waeth beth fo'u rôl. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn gyrru pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.

Fel aelod o'r tîm, gofynnwn i chi:

- Drin eich cydweithwyr â pharch, gan herio a chefnogi eich gilydd yn briodol a chadw at ein haddewid elusennol.
- Cyfrannu at ddiwylliant lle mae'n ddiogel i godi llais pan fydd mater yn codi, mewn dull adeiladol a phroffesiynol, gan fabwysiadu agwedd sy'n galluogi pobl i ddysgu a newid eu hymddygiad.
- Creu amgylchedd lle gall pobl fod yn ddilys iddynt hwy eu hunain, gan adlewyrchu ein huchelgais o dderbyn heb eithriad.
- Bod yn llysgennad ar gyfer Area 43 a'n gwaith, yn fewnol ac yn allanol.
- Rhannu eich gwybodaeth a helpu eich cydweithwyr i fod y gorau y gallant, tra hefyd yn berchen ar eich datblygiad personol a'ch perfformiad eich hun.
- Deall eich cyfrifoldebau o dan bolisïau allweddol, gan gynnwys Cydraddoldeb ac Urddas yn y Gwaith, iechyd a diogelwch, diogelu data, TG, cyfryngau cymdeithasol, a diogelu.
- Golyga hyn y byddwch yn:
- ymddwyn mewn ffordd ac yn gwneud penderfyniadau sydd er budd Area 43 a'n staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr a chefnogwyr.
- dangos dealltwriaeth dda ac ymrwymiad i gynnwys hunaniaeth lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws ym mhob cefndir gyda pharodrwydd i ddysgu a chael eich herio.
- helpu pobl i ddeall a chydymdeimlo'n well â'r heriau y gall pobl anabl a'r rhai ag anawsterau dysgu eu hwynebu a lleihau'r stigma cysylltiedig.
- dangos ymrwymiad i ddysgu am a gweithredu ein hymagwedd at gydraddoldeb hiliol a dileu gwahaniaethu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.
- deall eich bod yn bersonol gyfrifol am eich ymddygiad eich hun.
- cymryd camau gweithredol i ddeall y polisïau a gweithdrefnau allweddol a dilyn eich cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir ganddynt.
- yn mynychu unrhyw sesiynau briffio a hyfforddiant i'ch helpu yn eich rôl.
- cydweithio a chydweithredu â chydweithwyr o bob rhan o'r Elusen.
- gofyn a holi am gyngor os nad ydych yn sicr o'ch cyfrifoldebau.
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill fel y cyfarwyddir neu y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwr llinell.

# Sut mae gwneud cais

**Os hoffech wneud cais am y swydd hon, anfonwch y canlynol:**

- Cofnod Cyrhaeddiad (CV) cyfredol yn amlinellu hanes eich cyflogaeth, cymwysterau academaidd a phroffesiynol, a manylion cyswllt
- Datganiad ategol (dim mwy na 2 x tudalen A4 o hyd) yn amlinellu eich cymhelliant dros wneud cais ac yn dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Manyleb Person
- Bydd angen tystysgrif DBS Uwch dderbyniol ar gyfer y swydd hon

Cyflwynwch eich cais i sallyh@area43.co.uk erbyn y dyddiad cau **Dydd Llun 11eg o Ragfyr.**

Nodwch yn eich cais os oes gennych unrhyw ymrwymiadau yn ystod y cyfnod cyfweld a allai gyd-daro â'r dyddiadau hyn.

Ariennir y swydd hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.



